

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Mai 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 8

Yr hufenfa'n edwino...



Awst 2020

Gyda mwy a mwy o'r seilos yn mynd oddi ar y safle, mae'r hufenfa'n edrych yn bur wahanol erbyn hyn.



Ebrill 2021

**Diolch i
Gyngor Cymuned Llandyrnog
am noddi'r rhifyn hwn**

...a busnes arall yn ffynnu



Fe rannodd Dan, ein cigydd lleol, newyddion cyffrous ar y cyfryngau cymdeithasol yn y mis diwetha:

Felly, mae pum mlynedd wedi bod ers i ni gymryd drosodd siop gig Clwyd Williams. Roedd hon yn siop a oedd wedi hen ennill ei phlwyf a chanddi gwsmeriaid rheolaidd, ffyddlon ac mae hi wedi bod yn bleser pur gweithio o dan yr enw cyfarwydd yma.

Gan ein bod wedi datblygu tipyn ers hynny, rydym wedi penderfynu newid yr enw i adlewyrchu hynny!

Yr un siop, yr un wynebau (ac un newydd hefyd!), yr un gwasanaeth gwych.

Mae'n siŵr y byddwch yn sylwi ar ychydig o newidiadau ar arwyddion y siop dros yr wythnosau nesa – gobeithio y byddwch chi'n ei hoffi gymaint â ni.

Diolch am barhau i'n cefnogi.

Dymunwn yn dda i Dan i'r dyfodol, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth ardderchog. Croeso hefyd i'w aelod newydd o staff, Rhys.

Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn â Hughie a David Plumb ar farwolaeth Angie, merch a chwaer a fu farw ar ôl salwch byr yn ddiweddar. Symudodd Angie o Landyrnog yn 1985 i ardal Macclesfield ac yno bu'n rhedeg siop goffi llwyddiannus. Yn ddiweddar roedd wedi gwireddu ei breuddwyd o fyw ar gwch preswyl – *houseboat* – yn yr ardal. Cydymdeimlwn hefyd â'i gŵr, Glen.

Mae Hughie wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan a llwyr iddo.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Olwen Roberts, ar eu profedigaeth nhw. Roedd Olwen a Jack yn brysur iawn yn y pentre ac wedi gofalu am y neuadd am flynyddoedd.

Cyfarchion pen blwydd i Gwyn Rowlands, Dregoch, sydd newydd ddathlu pen blwydd arbennig. Ugain mlynedd yn ôl pan oedd yn bump deg ddaru ni addo fyddem ni ddim yn datgelu ei oedran cywir yn y dyfodol.

Cyfarchion pen-blwydd eto i Elwyn Evans, Ger y Llan, a ddathlodd ei ben blwydd yn 90 yn ddiweddar – gyda llun y tro 'ma!



Pen blwydd hapus hefyd i drysorydd y Llais – Ivan Butler. Gan fod y cyfnod clo'n dechrau dod i ben, bydd yn rhaid i ti ddechrau cyfri'r penblwyddi eto!

Swydd newydd Pob dymuniad da i Elis Morris ar ei swydd newydd gyda Daniel Morris, Bwtsiar, Dinbych.

Capel y Dyffryn Cynhaliwyd gwasanaeth yn y Capel dan arweiniad y Parch Andras Iago ar 18fed Ebrill.

Dymuniadau da i Beth Lloyd, Pen y Bryn, sydd wedi'i phenodi'n athrawes gwyddoniaeth yn Ysgol Glan Clwyd.

Cais llwyddiannus

Cyflwynodd y Gymdeithas gais i Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog am arian i gefnogi prosiect 'Cysylltu'n Presennol â'n Gorffennol – Llandyrnog a Llangwyfan'. Bydd hwn yn brosiect pedair blynedd a hanner, a'r bwriad ydi:

- Diweddarau llyfrynnau Arysgrifau Mynwentydd Eglwysi Llandyrnog a Llangwyfan
- Argraffu Cyfrol 3 o Gofrestri Plwyf Llandyrnog a ffotocopiö ailargraffiad o Gyfrol 1 a 2 fel bo'r galw
- Cyhoeddi Ail Ryfel Byd – Llandyrnog a Llangwyfan 1939–45 yn 2025 i nodi 80 mlynedd ers diwedd y Rhyfel. Bydd hwn yn cynnwys gwybodaeth newydd am bobl a'u profiadau mewn sefyllfaoedd anodd yn ardaloedd Llandyrnog a Llangwyfan yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Sefydlu gwefan ddwyieithog Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan er mwyn darparu adnodd ar gyfer pobl fydd yn astudio hanes lleol a hanes teulu'r ddau bentre'
- Cynnal a chadw'r Gofeb Ryfel a'r fynwent i ddiogelu'r wybodaeth hanesyddol a hanfodol sy ar gerrig beddi

Rydyn ni'n falch o gyhoeddi bod ein cais am arian wedi bod yn llwyddiannus, a byddwn yn derbyn £9,509 o'r gronfa tuag at y prosiect. Edrychwn ymlaen am roi gweithgareddau ar y gweill mor fuan â phosibl, gan obeithio y bydd cymaint â phosib o'r gymuned yn medru cymryd rhan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Cystadleuaeth bwganod brain MHC

Bydd cystadleuaeth bwganod brain Llandyrnog a Llangwyfan 2021 yn cael ei beirniadau ddydd lau, 20 Mai. Chwaraeon a'r campau yw'r thema eleni ac mae croeso i'r gymdogaeth leol gystadlu hefyd.



Os ydych yn bwriadu cystadlu, anfonwch neges erbyn dydd Gwener, 14 Mai at louise.blackhurst@mhc-uk.com. Cofiwch gynnwys gyfeiriad a chod post ble mae'r bwgan brain i'w weld.

Sioe Rithiol Llandyrnog 2021

Yn anffodus, fyddwn ni ddim yn cael sioe flodau a chynnyrch yn Neuadd y Pentre eleni. Fodd bynnag, mae gwahoddiad i chi anfon lluniau er mwyn gwneud sioe rithiol. Bydd y rhain wedyn yn cael eu cyhoeddi mewn llyfryn.

Dyma'r categorïau:

- ☼ Pobl ifanc (16 ac iau)
- ☼ Llysiau a ffrwyth
- ☼ Crefftau
- ☼ Blodau
- ☼ Ffotograffiaeth

Bydd cyfle i chi gystadlu gyda'ch gardd ac i ennill £30 mewn talebau canolfan arddio.

Bydd rhagor o fanylion yn y daflen wybodaeth a fydd yn cael ei dosbarthu'n fuan o gwmpas y pentre ac ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor Cymuned.

Yn y cyfamser, a wnewch chi ddychwelyd tlysau'r Sioe Flodau a Chynnyrch i Wyn Wilson ym Monfa, neu i Roger Warner, Cross Keys? Diolch.

Sesiwn gymorth rithiol

Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnal sesiwn gymorth rithiol drwy gyfrwng y Gymraeg i grwpiau cymunedol ac elusennau ar **26 Mai**. Bydd hon yn rhoi rhagor o wybodaeth am wneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol. Bydd croeso arbennig i grwpiau cymunedol sydd heb wneud cais am grant gan y Gronfa o'r blaen.

Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn rhoi hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i bandemig COVID-19.

Mae Pawb a'i Le yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiwn rithiol **ddydd Mercher, 26 Mai**, cysylltwch â fllur.davies@cronfagymunedolyg.org.uk. Ewch i wefan y gronfa i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: <http://cronfagymunedolyg.org.uk/cymru>.

RAISING FUNDS FOR THE DPJ FOUNDATION

TAITH DRACTORAU 6ED O FEHEFIN TRACTOR RUN 6TH OF JUNE



justgiving.com/fundraising/clwydtractors

**DECHRAU YN CLWB RYGBI DINBYCH 9.30YB
START AT DENBIGH RUGBY CLUB 9.30AM**

Dewch a cinio gyda chi / Bring your own lunch
Cofnodwch gyda/ register with
Glyn Jones 07741 314400 neu/ or Bryn Davies 07787 561191.
£10 pris mynediad/ entry fee.
Croeso i dractorau o unrhyw oedran / welcome to tractors of any age.
Fyddwn yn dilyn canllawiau Covid / We'll be following Covid Regulations



YSGOL BRYN CLWYD



O dan thema'r Deyrnas Unedig, mae'r disgyblion wedi bod yn astudio mapiau o Gymru i ddysgu am y siroedd gwahanol.



Rydym yn parhau â'n thema, Dathliadau ac wedi bod yn dysgu am seremonïau priodas mewn diwylliannau gwahanol. Fe aeth y plant allan i ddylunio eu ffrogiau priodas eu hunain o ddeunyddiau naturiol.

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA**



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

**GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I
LAWR**

01745 815141

07808970364



Yn ystod y tywydd braf, mae'r plant wedi bod wrth eu boddau'n dysgu yn eu dosbarth y tu allan.

Nodiadau o Blas Ashpool

Wrth i fis Mai gyrraedd, rwy'n siŵr ein bod ni, yn fwy nag erioed, yn edrych ymlaen at dywydd cynhesach a rhagor o law, gobeithio, i'r ardd. Wrth i ni barhau â'r gwaith mawr o glirio ac ailblannu nifer o forderi yn yr ardd, rwy'n synnu bod y ddaear mor sych. Rhaid mai'r gwyntoedd oer a gawson ni ychydig o wythnosau'n ôl sy'n gyfrifol am hyn.

Mae breuddwyd fy mhentyndod o fyw mewn gardd â wal o'i chwmpas wedi dod gam yn nes. Rydym wedi cael gwared ar gwt y moch, cerrig a darnau o bren o hen gae'r moch, ac mae wedi'i droi. Rŵan mae gennym ni gynfas gwag o bridd ffrwythlon (gobeithio). Wrth gwrs, does dim waliau eto, dim ond ffens, ond o leiaf mi fedra i gael hwyl yn nodi ble bydd y llysiau a'r llwybrau'n mynd. Mae'r freuddwyd am waliau brics coch y tu ôl i goed ffrwyth cynhyrchiol a borderi'n llawn o gynnyrch gwych yn parhau. Am y tro, rydw i'n hapus i blannu ychydig o resi o datws a ffa, i ddechrau.

Rydw i'n meddwl bod breuddwydio o help mawr i mi, er bod fy nheulu a fy ffrindiau wedi tynnu fy nghoes sawl gwaith am hyn, am 'ormod o freuddwydio a dim digon o wneud'! Fodd bynnag, fy marn i yw y gallwch gyflawni rhywbeth wrth freuddwydio, felly fe gewch chi'r boddhad o lwyddo. Sy'n wahanol iawn i'r sefyllfa go iawn – yn aml fyddwch chi ddim mor hapus â'r canlyniad.

Bob dydd dros fisoedd diwethaf y cyfnod clo, rydw i wedi fy atgoffa fy hun pa mor lwcus yr ydyn ni i gael cefn gwlad hardd Dyffryn Clwyd o'n cwmpas. Ond nid yw hyn wedi fy rhwystro rhag breuddwydio am gyfnod pan fyddwn ni unwaith eto yn gallu mynd allan ac ymweld â lleoedd newydd (a mynd yn ôl i hen ffefrynnau hefyd).

Rwy'n meddwl mai Gerddi Bodnant fydd ar frig fy rhestr – y lle gorau i fod yr adeg hon o'r flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl merch ffrind i mi sy'n gweithio yno, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr adar ac mewn bywyd gwyllt yn yr ardd ac o'i

chwmpas hi. Mae'n siŵr mai diffyg ymwelwyr sydd wedi cyfrannu at hyn. Dewch i ni obeithio na fyddwn ni'n tarfu ar y canlyniad hapus hwn pan fyddwn yn dechrau ymweld eto.

Tan y tro nesa, rydw i'n gobeithio y gwelwn ni'r gwenoliaid yn cyrraedd, COVID-19 a'i holl gyfyngiadau'n ymadael, ac y byddwn yn croesawu'n llawen y gwanwyn â'i holl ogoniant a'i fywyd newydd.

Pob hwyl ar y garddio,

Fiona Bell

Ar ôl iddi anfon yr erthygl yma, fe gawson ni neges gan Fiona yn dweud ei bod wedi clywed y gog am y tro cynta eleni ar 20 Ebrill. A oes unrhyw un arall wedi'i chlywed hi, ac ym mhle?

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

J & G TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602

Atgofion am Aberdaron: Earle Wright

Yn rhifyn y mis diwetha, fe gawson ni hanes Earle am wyliau ei blentyndod yn Aberdaron, lle arbennig iawn iddo. Fe adawon ni'r hanes gyda'i ddisgrifiad o gyrraedd y pentre ar ôl siwrnai ddiddiwedd o Benarlâg, a'r cipolwg cyntaf ar y pentre na fyddai byth yn newid.

Wrth inni ddod i stop, byddai Dad yn edrych ar y cloc a chyhoeddi, fel y gwnâi bob blwyddyn, ei bod hi'n gan milltir union o'n tŷ ni – doedd hynny ddim wedi newid chwaith!! Doedd dim cyfyngiadau parcio'r dyddiau hynny. Roedd y car yn cael ei barcio ar dir diffaith ar waelod yr allt; byth yn cael ei gloi. Chafodd dim ei ddwyn ohono na'i falu erioed.

Y peth cyntaf fyddwn i'n ei wneud bob blwyddyn oedd gwneud yn siŵr fod popeth yn ei le fel llynedd – y môr, y tywod a'r ddwy ynys fechan allan yn y bae – Ynys Gwylan Fawr ac Ynys Gwylan Fach. Ac roedd popeth arall yn dal yno hefyd – y Swyddfa Bost, y banc (Midland dw i'n meddwl), caffi'r Gegin Fawr a'i deras agored, a'r *Ship* lle byddem ni'n aros bob tro. Fydden ni byth yn aros yn y gwesty arall ar y ffrynt, y Tŷ Newydd, gan ei fod yn edrych dipyn bach yn fwy ffurfiol.

Roedd gennym restr o bethau i'w gwneud yn Aberdaron ar ein gwyliau bob blwyddyn:

- Mynd i weld Mary a Humphrey yn Uwchmynydd
- Mynd i fyni i'r 'Top' ar y ffordd goncridd o amser y rhyfel, a oedd yn troelli'n ara' deg at Orsaf Gwylwyr y Glannau. Lle da am lond bol o awyr iach.
- Trip am y diwrnod i Bwllheli i fynd rownd y siopau a chael *Dinky Toy* newydd – mae'n siŵr bod yr unig blentyn oedd wedi ei sbwylio'n lân yn cael tipyn o'i ffordd ei hun!
- Y peth ola' ar y rhestr oedd mynd i Borth Neigwl, rhyw fae neu ddau o Aberdaron. Roeddwn i bob amser yn dotio ar y targed milwrol anferth oedd yn sefyll yng nghanol y bae ar dair coes – gweddillion yr Ail Ryfel Byd. Roedd o fel bwrdd saethyddiaeth



Olion siediau'r awyrennau ym Mhorth Neigwl

anferth. Maen siŵr braidd mai rhywbeth i'w wneud efo Canolfan y *RAF* gerllaw oedd o. Beth bynnag, does dim llawer o'i hôl bellach.

Am y rhan fwyaf o'n hamser yn Aberdaron, roedden ni ar lan y môr, a hwnnw'n ymestyn yr holl ffordd i lawr ochr dde'r bae at greigiau'r pentir. Roedd yr amser yno a'r heulwen fel petaen nhw'n para am byth. A sôn am haul, dyna fyddai job gyntaf Mam – dod allan â'r eli haul niwsans, a hynny fel roeddwn i'n setlo ar le addas i'r bwced a'r rhaw. Doedd eli haul y dyddie hynny ddim i'w weld yn mynd i mewn i'r croen ac roedd rhaid i mam druan rwbio a rhwbio'n galed! Ond yr un fydde'r canlyniad – yr eli a'r swnd yn un past oedd yn crensiar ar y croen!! Be' oedd waetha' tybed – y past neu losgi yn yr haul?

Roedd pythefnos yno'n teimlo fel blwyddyn. Ond, yn sydyn, dechreuai'r dyddie ddirwyn i ben, a finne erbyn y diwrnod ola'n dechre gwneud ffrindie newydd! Rhy hwyr – y flwyddyn nesa', 'falle?

Roedd ffarwelio a gorfod mynd i swyddfa Mr Ellis, y *Ship* i setlo pethe, bob tro yn waith trist. Dyn bychan hwyliog ac eiddil oedd o, a'i wallt wedi'i gribo'n syth yn ôl. Byddai bob amser yn gwisgo siwt â chaead-dwbl ac roedd sigarét yn ei geg yn gyson. Wrth fentro i'w stafell, caech y teimlad mai stafell y prifathro oedd hi, a'ch bod chithe yno i gael y gansen am wneud rhyw ddrwg! Ond doedd dim dianc i Dad, a thalu'r bil yn ddewr oedd rhaid yn y diwedd.

Dyna hi am flwyddyn arall, a ffwrdd â ni at y car oedd heb ei gloi a dringo'n ara' deg, pasio'r

Atgofion am Aberdaron: Earle Wright ... parhad

siop fara, a'r bae, a'r olygfa'n diflannu'n araf o'r golwg.

Un flwyddyn, roedd hi'n Ddydd Sul arnom ni'n gyrru am adre' – doedd dim llawer o draffig, ac roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn. Wrth inni wibio drwy Gricieth, fe ddalltes fod sŵn cloch yn fy nghlustiau a hwnnw'n mynd yn uwch ac yn uwch! Roedd y gloch (dim seiren adeg hynny) yn tarddu o ryw gar Wolseley mawr du, a dyma hwnnw'n ein pasio. Drwy ffenest y gyrrwr, daeth llawes plismon i'r golwg, a rhoi arwydd i ni arafu a symud i'r ochor. Wel, dyma ni – roedd fy nhad ar fin cael ei restio a'i daflu i garchar tywyll Cricieth!

Wrth i'r plismon gyrraedd y car, roedd Dad wrthi'n brysur yn trio pledio'i achos (yn annoeth, 'falle) – roedd hi'n Ddydd Sul; doedd dim traffig ar y ffordd; roedd hi'n bwrw glaw. Ond fyddai'r esgusodion hyn ddim yn dal dŵr mewn achos llys!! Eglurwyd iddo'n finniog ei fod wedi goryrru, ac wrth roi darn o bapur swyddogol yr olwg iddo, medde'r plismon 'Rydach chi'n ddyn neis iawn, ond bydd raid i mi eich bwcio chi'r un fath'. Mi ddifethodd hynny'r hwyl ar y siwrne hir adref. Ddarau ni 'rioed fynd mwy na thri deg milltir drwy Gricieth wedi hynny – er gwaetha'r tywydd a'r diwrnod o'r wythnos!

Dw i wedi bod 'nôl yn Aberdaron sawl gwaith ers y dyddiau hynny yn y pumdegau. Mae'n braf cael ail-fyw profiadau hapus bore oes – ar wahân i'r ffein wrth gwrs!

Yn y saithdegau, roedd Mary a Humphrey yn dal i gadw gwely a brecwast, ac mi aeth Elaine a minnau i aros yno gyda'n tri phlentyn bach. Mae'r capel lle'r oedd Mary'n organydd a'r blwch ffôn yn dal yno heddiw, ond dydyn nhw ddim yn cael eu defnyddio. Mae'r hen adeiladau to sinc oedd yn arfer bod yn siop a gweithdy'n dal yno, ond yn wag ac wedi hen gau. Mae Mary a Humphrey hefyd wedi hen fynd.

Drwy gydol y blynyddoedd o fynd ar wyliau i Aberdaron, chawson ni ddim cyfle i

fynd i Ynys Enlli. Roedd Dad wedi sylwi ar y cerrynt gwyllt rhwng yr ynys a'r tir mawr ar un o'n teithiau cynta' i fyny at 'Dop' y Mynydd Mawr. Doedd fy rhieni ddim yn llongwyr!!

Y dyddie hynny, byddai'r cwch am Ynys Enlli'n cychwyn ar ei daith o'r lan gyferbyn â'r Tŷ Newydd. Erbyn heddiw, mae'n cychwyn o Borth Meudwy. Does gen i ddim co' pa mor amal fyddai'r cwch yn mynd draw, ond y tywydd fel arfer fyddai'n penderfynu. Sawl tro byddem yn gwyllo'r teithwyr yn sgrialu i mewn i'r cwch a'r criw yn trio'i sadio yn yr ewyn. Gwthio'r cwch i'r tonnau gwyllt, a hwnnw'n siglo i fyny ac i lawr. Dyna pryd byddai 'nhad yn gwneud ei safiad, 'Faswn i ddim yn mentro'n hwnne am bris yn y byd'. Dim rhyfedd na fuon ni 'rioed drosodd i Ynys Enlli.

Yn 2019, mi arhosodd Elaine a minnau yn y Tŷ Newydd am ddwy noson, ac anwybyddu'r hen *Ship* druan – mae popeth yn newid gydag amser. Un noson, wedi peint neu ddau, cododd y syniad o fynd draw i Ynys Enlli. Roedd perthynas i'n barman yn mynd draw'r diwrnod wedyn i wneud gwaith cynnal a chadw – fydden ni'n hoffi mynd gydag o? Mwy o beintiau, galwad ffôn a dyna daro bargaen. 'Ewch i gyfarfod Colin ym Mhorth Meudwy erbyn 09:30 ar y dot!'

Y peth cyntaf sylwes i arno wrth godi'r bore canlynol oedd y gwynt – roedd hi'n chwythu mwy na 'sero' milltir yr awr. Dim ond 'chydig o filltiroedd rownd y pentir o Aberdaron y mae Porth Meudwy. Erbyn i ni gerdded lawr y llwybr cul i lawr i'r traeth bychan, roedden ni wedi argyhoeddi'n hunain bod y gwynt yn hyrddio gormod ac y byddai'r daith yn cael ei chanslo. Croesawyd ni gan Colin y capten a'i griw o un, a doedd dim sôn am ganslo! Cafodd Elaine a minne a bath tun (wnaethon ni ddim holi am hwnnw!) ein rhoi ar y cwch ac i ffwrdd â ni.

Y cwbl oedd yn mynd drwy fy meddwl i oedd geirie 'nhad flynyddoedd yn ôl! Roedd ymchwydd y tonnau'n o lew nes i ni fynd rownd y penrhyn – dyna pryd ddechreuodd

Aberdaron: parhad

bethau fynd yn fwy bywiog! Tra oedd ewinedd ein bysedd ni'n ddwfn yn ochor y cwch, roedd y capten a'i fêd yn sgwrsio'n braf fel petaen ni ar lyn cychod. Yn amlwg, mi roedd Colin yn poeni am yr henoed bregus yn ei ofal, achos bob hyn a hyn byddai'n gofyn i ni 'Ydach chi'n iawn ill dau?' 'Yden wrth gwrs, dim problem!' Mae'n siŵr bod ein golwg ofnus yn bradychu'r gwir!

Ond yn fuan iawn, ar ôl deall ein bod ni mewn dwylo saff, dyma setlo i rythm y tonnau, gan gofio bod y ddau forwr yn croesi fel hyn o hyd.

Wrth i ni agosáu at yr ynys, roedd y clogwyni serth yn plymio i'r môr ac ochr ddwyreiniol Mynydd Enlli fel cawr uwch ein pennau. Yna aethon ni rownd y penrhyn a hwylio i mewn yn ara' deg tuag at lithrfa'r porthladd – golygfa o ryddhad pleserus ar ôl hwylio am tua thri chwarter awr a gweld y gorwel pell yn siglo i fyny ac i lawr! Ar ôl blynyddoedd lawer o weld yr ynys a'r goleudy'n unig o bell, roedd hi'n rhyfedd gweld ochr iddi nad oeddwn i'n gallu ei gweld o'r tir mawr. Rŵan roedden ni'n gallu gweld yn glir y bythynnod, y ffermydd, y capel ac adfeilion y fynachlog wedi eu gwasgaru yng nghysgod Mynydd Enlli. Roedd yn ffrainc ymweld ag Ynys Enlli, yn enwedig gan mai ni oedd yr unig deithwyr yno'r diwrnod hwnnw.

Efallai mai uchelgais gudd geni i wrth dyfu fyny, yn dilyn fy ymweliad cyntaf ag Aberdaron, oedd y byddwn ryw ddiwrnod yn ymweld â'r ynys lle gorwedd ugain mil o saint – a phrofi i'nhad fei bod hi'n werth mynd yno ar bob cyfri!



Mynydd Enlli

Rysâit

Cacen pinafal a coconut



- 6 owns o flawd codi
- 1 llwy de o bowdr codi
- 6 owns o siwgr mân
- 6 owns o fargarîn meddal (Stork)
- 3 ŵy
- 3 owns o *desiccated coconut*
- 4 llond llwy fwrdd o binafal mâl
- 2 llond llwy fwrdd o sudd pinafal

Cynheswch y popty i 170 °C (160 °C popty ffan, Marc 4) a leiniwch dun torth (2 bwys) â phapur pobi.

Hidlo'r blawd a'r powdr codi i fowlen.

Ychwanegu'r cynhwysion i gyd, yna curwch nes bydd popeth wedi cyfuno.

Tywallt y gymysgedd i'r tun a choginio am 45–60 munud.

Gadewch i'r gacen oeri rywfaint yn y tun.

Veronica Roberts



rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

Gair gan y Rheithor

Mae eglwysi'n mannau cysurlon a heddychlon, mannau tawel i berthnasau ymweld â nhw a chael cysur yn eu colled. Mae colli un annwyl yn anodd ac mae ymweld â'r fynwent i roi blodau ar y bedd yn rhoi cyfle i ni fynegi ein tristwch a'n galar. Nid yw pawb yn dewis y fynwent fel man gorffwys terfynol, ond mae pob ohonom yn gallu penderfynu beth fyddai'n dod â'r cysur mwyaf i'n teulu. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n gwirfoddolwyr sy'n sicrhau bob amser fod y fynwent yn dwt ac yn daclus.

Roedd angladd y Tywysog Philip, Dug Caeredin wedi'i gynllunio'n hynod ofalus ac yn llai o ddigwyddiad o lawer na'r un arferol ar gyfer aelod hyn o'r teulu brenhinol. Roedd milwyr yn bresennol, yn unol â dymuniadau'r tywysog, ond yn bennaf oll roedd yn adeg i'r teulu ffarwelio a mynegi eu galar. Yn debyg i sefyllfa cymaint o deuluoedd, roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â chyfyngiad COVID-19 a dim ond 30 o alarwyr a oedd yn gallu

bod yn bresennol. Mae'n drist iawn bod nifer fawr o deuluoedd wedi bod mewn sefyllfa debyg dros y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth wyllo'r gwasanaeth ar y teledu, roeddem yn ymwybodol o alar y frenhines. I bawb ohonom, mae galar yn rhan o'n cariad, y mwyaf y cariad, y mwyaf y boen.

Ym mis Mawrth y llynedd fe ysgrifennais am ymweliad â'r fynwent gan Iwan Edwards o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a'r cynllunio i ddod i wybod rhagor am fio-amrywiaeth y fynwent. Oherwydd y cyfnod clo, nid oedd hyn yn bosib. Eleni, rydym wedi gallu dechrau'r project eto ac wrth i chi gerdded drwy'r fynwent, fe welwch fod rhaffau o gwmpas tair ardal fechan. Bydd hyn yn ein galluogi i adael i blanhigion dyfu, astudio'r ddaear a chofnodi'r planhigion cynhenid sy'n blodeuo'n naturiol yn y fynwent.

Mae ein mynwentydd yn fannau unigryw, diolch i bawb sy'n rhoi eu hamser i ofalu amdanynt a sicrhau eu bod yn parhau i roi cysur a heddwch i genedlaethau'r dyfodol. Gyda phob bendith,
Val Rowlands

0 diar!



Cafodd gyrrwr ddihangfa lwcus iawn pan ddisgynnodd ei dractor oddi ar y ffordd Rufeinig. Yn ffodus, roedd y dyn o Dreffynnon wedi llwyddo i ddianc yn ddianaf ac wedyn eisteddodd i gael paned ac edmygu'r olygfa.



**Denbigh
Building
Plastics**

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7

Colomendy Industrial Estate

Denbigh LL16 5TA

01745 818849

Open Mon—Fri 7.30am—5 pm

Sat 9 am—12 pm

Taith fach ddiddorol

Un peth mae'r cyfnod clo wedi dysgu i ni yw nad oes angen crwydro'n bell – gadewch i ni fwynhau be sydd ar drothwy ein drws ni yma. Be am fynd am dro bach o gwmpas ardal hyfryd Llangwyfan? Tydi hi ddim yn daith hir o gwbl – rhyw awr ar y mwya.

Os gwnewch chi barcio yn y maes parcio mawr ar y chwith cyn cyrraedd eglwys Llangwyfan, fe ddylech fod yn iawn. Tydi o ddim yn faes parcio cyhoeddus ond mae'r perchennog yn amaethwr mawr ei barch yn y fro, felly os byddwch chi'n dod ar ei draws mae angen i chi ganmol cyflwr y stoc rydych yn ei weld ar y Parciau i'r cymylau.


Fe sylwch wrth giât yr eglwys fod yna gyffion – er bod y pyst yn wreiddiol, yn anffodus mi gafodd y trawstiau eu dwyn (eironig yn de?) ond mae pedwar twll ynddyn nhw, i gadw dau ddihiryn dan glo am gyfnod y gosb.

Os ewch chi i mewn i fynwent yr Eglwys, cymerwch dipyn o amser i fwynhau tawelwch a phrydferthwch y llecyn hyfryd yma. Mae wir yn 'lle i enaid gael llonydd' – dim ond sŵn y nant a'r defaid yn breffu glywch chi.

Ar y dde wrth y giât fe welwch garreg fedd gŵr ifanc o'r enw Thomas Charles Jones a oedd yn byw yn Mwthyn Fron Haul. Mae'r Comisiwn Beddau Rhyfel yn gofalu am y garreg fedd yma ac arni mae'r geiriau '*a ray of sunlight, an endless day, to the better land he leads the way*'.

Mae yna stori ddigon diddorol am y gŵr ifanc yma. Dydi'r enw ddim yn ymddangos ar y rhestr anrhydeddau sydd yn Eglwys Llandyrnog gan na fu, o bosib, ar faes y gad o gwbl. Roedd yn un o bump hogyn ifanc a fu farw o'r clefyd coch mewn ysbyty yng Nghaer ym mis Mai 1916.

Roedd hi'n ddiwrnod torcalonnus i'w rieni pan aethon nhw a pherthnasau eraill o Llangwyfan i Orsaf Dinbych i nôl corff eu mab adre er mwyn ei gladdu. Enw rhywun arall oedd ar yr arch ac aethon nhw adre o'r orsaf yn waglaw. Daeth arch eu mab yn ddiweddarach a chymerwyd ef i Eglwys



Llangwyfan i'w gladdu y diwrnod canlynol.

Reit – 'dan ni'n dal i fod wrth y giât! Ewch tuag at borth yr eglwys a gyferbyn â'r drws, ar y chwith mi welwch garreg las fechan efo'r ysgrifiad '*Foulk Jones 1699- 1801 – he lived in three centuries*'. Wel dyna dipyn o gamp pan faswn i'n meddwl y byddai oes pobl ar gyfartaledd y cyfnod hwnnw rywle o gwmpas y deugain, mae'n siŵr. Er hir chwilio does neb yn medru dod o hyd i ragor o fanylion am y gŵr hynod yma.

Mae'r eglwys ei hun yn hynafol tu hwnt ac wedi ei chysegru i St Cwyfan. Mae'r waliau presennol o leia 500 mlwydd oed ond rhaid cofio ei bod wedi ei hailadeiladu sawl gwaith ers hynny ac mae'n fwy na thebyg mai to gwellt oedd arni'n wreiddiol. Mae'n hynod oherwydd ei bod hi heb gael eu hadnewyddu yn oes Fictoria, fel y digwyddodd i nifer fawr o eglwysi.

Os ydi'r porth ar agor, edrychwch yn fanwl ar y paneli cerrig ac mi welwch Groes Gysegru wedi ei naddu mewn i'r garreg. Mae'r rhain yn brin iawn ac yn dystiolaeth o oed yr adeilad. Pan fyddai esgob yn cysegru adeilad am y tro cyntaf, mi fyddai'n mynd o gwmpas yr eglwys yn rhoi croes neu ddwy ar y waliau gan ddefnyddio olew sanctaidd. Wedyn byddai'r eglwyswyr yn naddu'r groes i mewn i'r garreg.

Wrth ddod i fyny'r ffordd at yr eglwys, fe fyddwch wedi mynd heibio Highfield Park, yr enw presennol ar sanatoriwm Llangwyfan.

Taith fach ddiddorol: parhad

Mae hanes y sbyty wedi ei gofnodi yn fanwl iawn gan bobl llawer mwy cymwys na mi i wneud. Yn y bôn, ar ôl i'r Brenin Edward VII farw dechreuwyd nifer o fudiadau i'w goffáu a dyma un ohonynt, i ymladd yr afiechyd ofnadwy hwnnw, y diciâu – TB.

Syr D.S. Davies gyfrannodd y tir i adeiladu'r sbyty arno. Pwy oedd hwnnw meddach chi? – wel, mab yn nghyfraith Thomas Gee.

Yn 1952 newidiwyd yr enw o fod yn sanatoriwm i ysbyty a chanolbwyntio eto ar drin pandemig arall – y diciâu neu TB.

Y prif driniaeth oedd gorffwys ac awyr iach. Os wnewch chi sylwi ar rai o'r adeiladau mae yna be faswn ni'n eu galw yn *french doors*, fel bod gwlâu yn cael eu gwthio allan yn ystod y dydd ac yn ôl i mewn gyda'r nos wrth iddi oeri. Hwn oedd prif sbyty diciâu Gogledd Cymru ac yn brysur iawn. Yn ystod y 50au roedd y lle yn fwrlwm gan y nyrsys yn denu dynion ifanc y plwy yno. Mae sawl cwpwl o'r pentre wedi cyfarfod yno – fy nhad a mam yn eu plith!

Bellach mae'n eiddo i MHC sy'n cynnig gofal a chyfleon gwych i bobl efo anawsterau dysgu eitha dwys. Reit mi wnawn ni adael Llangwyfan rŵan ac anelu i fyny'r lôn sydd ar y chwith. Yn uwch i fyny, fe welwch plasty crand Fron Yw ar y dde. Mi ro i chydig o hanes y lle heb fynd i ormod o fanylder ond be welwch chi heddiw ydi'r Fron Yw ddaru gael ei ailadeiladu yn 1906, nid yr un gwreiddiol.

Cartref gwraig o'r enw Jane Williams oedd y plasty gwreiddiol, ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Priododd Jane â dyn o'r enw John Madocks. Priododd Jane eto ar ôl iddi golli John ond parhaodd teulu Madocks am hir yn yr ardal.

Yn 1758 cofnodwyd angladd Edward Madocks ac etifedd ei ystâd oedd John Madocks, bargyfreithiwr yn Llundain. Ef oedd tad yr enwog William Alexander Madocks, y peiriannydd sifil gwych a adeiladodd Tremadog a'r Cob a oedd yn arwain at harbwr Porthmadog. Mynd yn fethdalwr oedd hanes William yn y diwedd oherwydd sawl rheswm

ac mae cyfrolau lawer wedi'u hysgrifennu am anturiaethau'r gŵr yma.

Yn ddiweddarach, cyfunwyd Fron Yw efo ystad y Sanatoriwm a bu'n gartref i brif swyddogion meddygol yr ysbyty ac roedd rhai o'r staff yn byw yn y bythynnod ar y buarth. Yn 1988 daeth y tŷ yn gartref nyrsio preifat ond mae bellach yn ôl yn dŷ annedd.

Reit, dyna ddigon am hynna. Pan gyrh-aeddych chi ddiwedd y llwybr, mi fyddwch yn ymyl Pen Llwyn lle roedd yna chwarel flynyddoedd yn ôl. Daethpwyd o hyd i olion mwyngloddio am blwm gerllaw. Yn wir, mewn cyfrifiad cofnodir bod dau fwyngloddwr plwm yn byw ym mythynnod Fron Haul, Llangwyfan.

Trwy'r giât ar ben y llwybr, trowch i'r chwith ac i lawr allt digon serth, a dweud y gwir, a phasio Islwyn ar y chwith nes i chi gyrraedd giât mochyn newydd sbon. Ewch i mewn i'r Parciau yn y fan yno. Islwyn, gyda llaw, oedd cartref peiriannydd Llangwyfan. Roedd y staff i gyd, boed yn feddygon, garddwyr, dreifars, peirianwyr, crefftwyr, yn cael cartref gyda'u swydd.

Mi fydd y llwybr yma yn eich arwain yn ôl at eglwys Llangwyfan ac oes wir, mae 'na hanes i'r llwybr yma hefyd. Os gwnewch chi sylwi, roedd wedi'i wneud yn wreiddiol o slabiau concrid sylweddol mewn dwy res gyfochrog ac ar un adeg, roedd y llwybr yn wastad fel bwrdd biliards. Roedd yn dechrau wrth eglwys Llangwyfan ac roedd yna byst gwyn gytbell o'i gilydd ar ei hymyl. Pwrpas y rhain oedd i staff fynd â chleifion am dro ar hyd y llwybr a gweld sawl postyn roedden nhw wedi'i basio. Roedd hyn yn dangos y pellter wrth gwrs ac os oedden nhw'n medru cerdded o Llangwyfan i Islwyn ac yn ôl, wel roedden nhw'n barod i fynd adre a hynny efallai ar ôl cyfnod hir iawn yn y sbyty ac i ffwrdd o'u hanwyliaid.

Wel gobeithio i chi fwynhau'r daith fechan yma – yn does 'na hanes rownd pob cornell!

Bryn Davies

Dysgu Cymraeg: Catherine Howarth



Rydw i'n byw yn Llangwyfan ers mwy na 20 mlynedd. Ces i fy ngeni ym Manceinion ond dw i'n byw yng Nghymru ers tua 40 mlynedd. Symudais i i Gymru yn yr 80au i fynd i astudio yn Y Coleg Normal ym Mangor. Astudiais i efrydiau amgylcheddol a thystysgrif ôl-raddedig mewn addysg gynradd. Athrawes oeddwn i yn Ysgol Licswm, Sir y Fflint am fwy na thrideg mlynedd, a dw i wedi ymddeol fel pennaeth yna, ym mis Rhagfyr 2019.

Wnes i ddechrau dysgu siarad Cymraeg wyth mlynedd yn ôl pan ges i gyfle anhygoel i fynd ar gwrs sabothol athrawon cynradd – tri mis allan o'r ysgol i ddysgu'r iaith! Roeddwn i wedi bod ar gyrsiau byr dros y blynyddoedd i helpu fi i ddysgu plant ond doeddwn i ddim yn gallu siarad efo pobl neu ddefnyddio'r iaith yn fy mywyd i, ond ar ôl dau ddiwrnod ar gwrs sabothol wnes i sylweddoli fedrwn i ddweud beth roeddwn i isio dweud – roeddwn i ar y ffordd! Wedyn wnes i gario ymlaen efo dosbarthiadau wythnosol, neu gyrsiau undydd efo Coleg Cambria neu Popeth Cymraeg yn Ninbych. Sefais i arholiadau sylfaen a chanol-radd ac ar hyn o bryd dw i'n dysgu cwrs lefel uwch. Hefyd, dw i'n mwynhau bob wythnos, sgysiau dros Zoom efo pobl dros y wlad (a weithiau dros y byd) sy'n dysgu Cymraeg. Dw i wedi mwynhau dysgu am y diwylliant Cymreig a hanes Cymru yn ogystal â'r iaith. Mae pob tiwtor wedi bod yn amyneddgar a chefnogol a helpu fi ar y daith tuag at fod yn rhugl.

Pwrpas y cwrs sabothol oedd codi safonau plant ysgolion cynradd yn y Gymraeg, ac wrth gwrs roeddwn i isio dysgu Cymraeg yn well,

ond hefyd ces i awydd i ddysgu iaith fy hun. Roedd fy nain yn dod o Aberystwyth, ond yn anffodus doeddwn i ddim yn ei nabod achos roedd hi wedi marw cyn i mi gael fy ngeni. Trwy fy mhientyndod i, ces i lawer o gysylltiad efo Cymru e.e. treulio amser efo teulu yn Sir Fôn a pan wnes i fynd i Fangor i astudio, teimlais i mod i adre. Dros y blynyddoedd dw i wedi teimlo mwy a mwy o Gymraes gan mai hwn oedd fy nghartref ar hyd fy oes fel oedolyn, ond heb yr iaith, doedd hyn ddim yn ddigon.

Ar ôl dechrau dysgu Cymraeg, roedd hi fel agor drws i fyd arall! Y peth cyntaf wnes i oedd gwirfoddoli ym Maes D yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych 2013. Ar ôl hynny, dw i wedi trio i fynd i'r Eisteddfod bob blwyddyn. Yn 2016 ces i mwy o hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol a theimlais i mor falch pan wnaeth fy ysgol gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar adrodd. Roeddwn i'n gallu siarad i'r rhieni yn y Gymraeg mewn digwyddiadau fel Diolchgarwch, Cyngerdd Nadolig a Dydd Mabolgampau. Dw i wedi methu'r Eisteddfod eleni ond dw i wedi cymryd rhan yn yr Eisteddfod Amgen yn y trafodaeth efo dysgwyr arall ledled Cymru a tiwtor Cymraeg ac awdures Pegi Talfryn am 'Darllen a sut mae darllen yn helpu pobl i ddysgu Cymraeg'.

Trwy'r cyfnod clo cyntaf yn y gwanwyn, roedd ffrind sy'n byw ym Mangor yn gofyn os faswn i isio helpu hi i ddechrau siarad Cymraeg. Wel mae hi'n helpu'r ddwy ohonom ni i oroesi'r cyfnod clo efo sgws ddyddiol via Facetime.

Dysgu Cymraeg yw un o'r peth gorau i mi ei wneud erioed. Os ydych chi erioed wedi ystyried dysgu Cymraeg, rwy'n eich annog i wneud hynny. Mae hi mor hawdd yn ein hardal gyda Chanolfan Iaith ardderchog yn Ninbych yn cynnig nifer o gyrsiau amrywiol. Mae cymuned dysgwyr Cymraeg yn lle cyfeillgar iawn ac mae o'n rhoi llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith efo cymdogion ac yn ein siopau a'n cyfleusterau yn yr ardal hon.

Welsh of the West End

Mae Covid wedi effeithio'n fawr iawn ar nifer o sectorau yn ystod y 12 mis diwethaf, yn enwedig ym maes y theatr a cherddoriaeth fyw.

Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf fis Mawrth 2020, penderfynodd Steffan Hughes, Plas Llangwyfan ddod â nifer o gantorion Cymreig y *West End* at ei gilydd yn rhithiol, a chreu perfformiad ar-lein er mwyn helpu codi calonnau pobl a darparu adloniant roedd ei angen yn fawr! Bu Steffan yn cydweithio â nifer o gantorion y theatr gerdd ar ei raglen BBC Radio Cymru *Sioeau Cerdd Steffan Rhys Hughes*, ac felly roedd yn ymwybodol o dalent anhygoel y Cymry llwyddiannus ym maes y theatr gerdd ar hyn o bryd. Galwyd y brand yn **Welsh of the West End**, ac fe gafodd y recordiad cyntaf: '*Seasons of Love*' o'r sioe gerdd *Rent* ei rhyddhau ar 8fed Mawrth y llynedd.

Yn y perfformiad hwnnw, y cantorion oedd Sophie Evans (*Wicked*), Luke McCall (*Les Misérables*), Jade Davies (*West Side Story*), Tom Hier (*Miss Saigon*), Mared Williams (*Les Misérables*) Samantha Thomas (*Wicked*), Siwan Henderson (*Pirate Queen*), Rhidian Marc (*Wicked*) a Glain Rhys (*Phantom of the Opera*).

Cafwyd ymateb gwych, a blwyddyn yn ddiweddarach, maen nhw wedi rhyddhau dros 20 o berfformiadau, a dros 10 miliwn wedi eu gwyllo a 200,000 yn eu 'hoffi' ar-lein. Mae eu fideos wedi ymddangos ar Theatr Swyddogol Llundain, *What's on Stage*, ITV, BBC a S4C, ac ar yr un pryd, maen nhw wedi cefnogi dros 20 o elusennau ac achosion teilwng.

Uchafbwynt 2020 oedd medru perfformio dwy sioe awyr agored '*Welsh of the West End: Live*' yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, gyda phob tocyn wedi ei werthu! Cafwyd perfformiadau hefyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, S4C ac Undeb Rygbi Cymru. Ar Fawrth 1af eleni, fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi *London Celebration*, cafodd y



perfformiad ei ffrydio ar-lein gan Gymdeithas Cymry Llundain ar draws y byd.

Pan fydd y cyfyngiadau wedi eu codi'n gyfan gwbl, maen nhw'n edrych ymlaen yn llawn cyffro at allu perfformio'n fyw ar lwyfan. Nid yw rhai o'r grŵp wedi cwrdd â'i gilydd yn bersonol, felly dyna rywbeth i edrych ymlaen ato!

Hoffai Steffan ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi'r fideos mewn unrhyw ffordd, ac os hoffech chi eu gwyllo, chwiliwch am **Welsh of the West End** ar YouTube.



Blue Hand Mowers

Repair and servicing of all garden machinery:

Lawn mowers and lawn tractors

Chain saws

Hedge cutters

Strimmers

Disc cutters

Quad bikes

Leaf blowers

Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google

www.bluehandmowers.co.uk

enquiries@bluehandmowers.co.uk

☎ 0775 20 35 462

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ebrill y Cyngor Cymuned

Mae'r materion a drafodwyd yn cynnwys:

- ♦ Pryderon am ddiffyg golau ym maes parcio Hwylfa/Maes Llan car park. Bydd y pryderon yn cael eu cyfleu i adran goleuadau stryd Cyngor Sir Ddinbych, ond mae'r mater wedi'i wrthod yn y gorffennol.
- ♦ Cafwyd nodyn gan *Llais Llandyrnog Voice* a'r Eglwys i ddiolch am y cyfraniadau diweddar.
- ♦ Manylion siop un alwad i wirfoddolwyr yn Sir Ddinbych –<https://www.denbighshire.gov.uk/volunteering>.
- ♦ Mae Wicksteed, y cwmni a fydd yn estyn y lle chwarae a darparu offer ychwanegol yn parhau i fwriadau dechrau ar y gwaith yng Nghae Nant, 10 Mai.
- ♦ Mae'n debyg bod y tyllau yn y ffordd rhwng Celynog a'r Kinmel Arms wedi'u llenwi ac yn foddhaol am y tro.
- ♦ Er bod dau gais wedi'u rhoi i'r Cyngor Sir, nid yw'r ffosydd o gwmpas Maes y Wern wedi'u gwagio.
- ♦ Diolchwyd i Merfyn Parry am blannu hadau blodau gwyllt a thalu amdany'n nhw o'i boced ei hun. Diolchwyd hefyd i Ruth Griffith am blannu blodau yn y twb y tu allan i'r Ystafelloedd Coco.
- ♦ Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi llogi'r Ystafelloedd Coco ar gyfer yr etholiadau, 6 Mai, ac wedi anfon yr asesiadau risg, a.a.
- ♦ Rhoddodd M. Parry adroddiad ar lafar am y grŵp gorchwyl a gorffen

amlasiantaeth sy'n cydweithio i leihau'r llifogydd ar lawr y dyffryn. Mae'r grŵp yn cynnwys Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru

- ♦ Cafwyd gwybod bod yr arwydd 'Ildiwch' ger cyffordd Capel Isa wedi'i ddifrodi. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir.
- ♦ Mae'r Cyngor wedi cael rhybudd o archwiliad cyfrifon. Bydd hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod yr is-bwyllgor cyllid.
- ♦ Mae busnes lleol hael iawn, sy'n dymuno bod yn ddienw, wedi cyfrannu £250 tuag at y blodau ar y gylchfan.
- ♦ Cafwyd trafodaethau dechreuol ynghylch sut y gallai'r gymuned gael budd o'r iawn-dal am COVID-19 mae'r Cyngor Sir wedi'i roi. Caiff hyn ei drafod yn fanylach yng nghyfarfod yr is-bwyllgor cyllid.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 3pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

